Natur Ar Eich Stepen Drws

AMGUEDDFA CYMRU

# Trefnu pethau! Malwod Streipiog

Gall adnabod malwod streipiog fod yn ddryslyd. Mae eu patrymau'n amrywio a'u siâp yn newid wrth dyfu. Mae canfod mwy o gregyn yn gwneud trefnu'n haws.

011

Am ragor o ganllawiau natur neu i gysylltu â gwyddonwyr ein hamgueddfa i helpu gydag adnabod, ewch i: amgueddfa.cymru/casgliadau/ar-eich-stepen-drws



## Malwoden Wefus Wen

*Cepaea hortensis*

- ★ Melyn neu frown.
- ★ Mawr (20mm o led), siâp pwmpen, llyfn.
- ★ Rhimyn gwyn, trwchus o gwmpas yr agoriad pan mae wedi tyfu'n llawn.
- ★ Yn gyffredin mewn gerddi, coedwigoedd a'r mwyafrif o gynefinoedd eraill.



## Malwoden Wefus Frown

*Cepaea nemoralis*

- ★ Melyn, beige, brown, neu binc.
- ★ Mawr iawn (25mm o led), siâp afal, llyfn.
- ★ Rhimyn brown, trwchus o gwmpas yr agoriad pan mae wedi tyfu'n llawn.
- ★ Yn gyffredin mewn gerddi, coedwigoedd a'r mwyafrif o gynefinoedd eraill.



## Malwoden y Twyni

*Theba pisana*

- ★ Melyn, beige, neu wyn. Streipiau wedi eu torri'n flotiau yn aml.
- ★ Mawr (22 mm o led), gweddol wastad, llyfn.
- ★ Ymyl finiog ar gregyn ifanc.
- ★ Prin yng Nghymru: dim ond mewn twyni tywod penodol.



## Malwoden Grychlyd

*Xeroplexa intersecta*

- ★ Beige, llwyd neu wyn. Streipiau wedi eu torri'n flotiau yn aml.
- ★ Bach (10 mm o led), gwastad, siâp botwm, gydag arwyneb garw, crychlyd.
- ★ Twll bychan (bogail) ar y gwaelod.
- ★ Eithaf cyffredin mewn mannau heb gysgod, gan gynnwys twyni tywod, tomenni glo a chwareli.



## Malwoden y Winllan

*Cernuella virgata*

- ★ Beige, llwyd neu wyn.
- ★ Maint canolig (12-15mm o led), yn gonigol ar y brig, gydag arwyneb garw.
- ★ Twll bychan (bogail) ar y gwaelod.
- ★ Gwawr frowngoch o gwmpas yr agoriad yn aml.
- ★ Eithaf cyffredin mewn twyni tywod a mannau arfordirol eraill.



## Malwoden y Rhos

*Helicella itala*

- ★ Beige, llwyd neu wyn.
- ★ Mawr (18mm o led), gwastad, siâp teiar, llyfn.
- ★ Twll mawr iawn (bogail) ar y gwaelod.
- ★ Prin yng Nghymru: dim ond mewn ardaloedd calchfaen a thwyni tywod penodol.